

Fframwaith Cymhwysedd Iaith – Hunan Adfyfyriad

Gellir gweld wrth gyfeirio at Atodiad 1, sef cynllun y wers 5 munud a ffilmwyd yn y Brifysgol fy mod yn canolbwyntio'n benodol ar feithrin sgiliau llythrennedd cyd-fyfyrwyr yn y Gymraeg. Gwers a gynlluniwyd ar gyfer cyfweiliad, roedd y ffocws ar Nodweddion Arddull. Rwyf wedi cynnwys y cynllun wers gyfan, er dim ond hyd at 5 munud o'r wers a gwnaed yn y Brifysgol (wedi'i addasu ychydig) er mwyn gallu mesur fy sgiliau ieithyddol yn erbyn meini prawf llwyddiant y *Fframwaith Cymhwyseddau Iaith i Athrawon*.

I ddechrau, fe wnes i ddosbarthu taflen waith (Atodiad 2) gyda'r dasg gychwynnol arni er mwyn cael fy nghyd-fyfyrwyr ar dasg yn syth; tasg syml o gydweddu diffiniadau gyda'u hystyr a pharodd dwy funud. Ar ôl rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar y sgrin ryngweithiol (cefnogaeth ar gyfer dysgwyr gweledol), ac ar lafar (cefnogaeth ar gyfer dysgwyr clywedol), aeth fy nghyd-fyfyrwyr ati i weithio'n annibynnol ar y dasg, gan drafod ambell i dro am unrhyw gamsyniadau ac i wirio'u cynnydd. Bwriad y dasg hon oedd actifadu gwybodaeth flaenorol a datblygu ymwybyddiaeth iaith Llenyddiaeth fel eu bod yn gallu categorio'r diffiniadau amrywiol yn ôl eu gweithrediad. Er bod fy nghyd-fyfyrwyr yn deall yr eirfa, roedd yn bwysig iddynt ymarfer meddwl am sut maent yn gallu defnyddio'r eirfa i ysgrifennu'n fwy soffistigedig gan ystyried yr effaith mae hwn yn cael wrth gynhyrchu delwedd yn ben y darllenwr.

Yn dilyn hwn, cawsom drafodaeth fel grŵp ar eu canfyddiadau ar gyfer adborth. Roedd yr ymarfer hyn wedi gweithio'n dda iawn gan ofyn i fy nghyd-fyfyrwyr trafod eu hymatebion a chyfiawnhau eu dewisiadau. Roedd hwn yn creu ymdeimlad o gydweithio ac yn darparu'r cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau llythrennedd wrth iddynt ymdopi gyda'r derminoleg briodol i allu trafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Yn ogystal â hyn, roeddwn wedi sicrhau fy mod yn gwahaniaethu gan osod 'HER' ar y daflen waith ar gyfer gosod disgwyliadau uchel ac ymestyn y goreuon. Roedd cyfraniad fy nghyd-fyfyrwyr at y gweithgaredd hwn yn caniatáu adrodd yn ôl effeithiol a'r cyfle iddynt ddefnyddio terminoleg estynedig ag oedd yn addas i nod y wers ac yn datblygu eu dealltwriaeth o nodweddion arddull. Mae'n werth nodi bod caniatáu amser ar gyfer adrodd yn ôl ac adolygiad o'r dasg gychwynnol yn sicrhau cyfathrebu clir am y wybodaeth a'r cysyniadau sy'n berthnasol ar gyfer y wers (Rosenshine, 2012). Mae'n bwysig fy mod i yn helpu dysgwyr i gywiro gwallau a wneir wrth iddynt fynd ymlaen ac atgyfnerthu esboniadau yn gyson er mwyn sicrhau bod ganddynt afael gadarn ar y gwaith cyn symud ymlaen.

Yn ddilynol, gofynnwyd i fy nghyd-fyfyrwyr symud ymlaen at dasg 2 wrth i mi unwaith eto arddangos cyfarwyddiadau ar y sgrin wedi'u hatgyfnerthu ar lafar. Roedd y dasg hon yn adeiladu ar yr hyn a gwnaed yn barod ac yn darparu'r cyfle ar gyfer ymarfer ychwanegol ar eirfa a thermiolog oedd eu hangen ar gyfer y wers ac er mwyn gallu dwyn i gof yn awtomatig (Rosenshine, 2012). Ceir tystiolaeth o ddatblygiad yn eu medrau llythrennedd fan hyn wrth iddynt ddefnyddio'u sgiliau darllen trwy sganio am y wybodaeth ag oedd yn berthnasol i'r dasg benodol hon h.y. dod o hyd i'r nodweddion arddull a'u hanodi.

Yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl ar ddiwedd y dasg hon, roeddwn yn sicrhau fy mod yn gofyn i bob unigolyn ateb er mwyn penderfynu pa mor dda y mae'r deunydd wedi'i ddysgu ac i weld os oedd angen cyfarwyddyd ychwanegol. Mae cwestiynu hefyd yn helpu ymarfer gwybodaeth newydd ac yn cysylltu deunydd newydd gyda dysgu blaenorol ac felly roedd fy nghwestiynu parhaus yn effeithiol yn y wers wrth alluogi i'm gyd-fyfyrwyr esbonio sut y daethpwyd o hyd i'r atebion. Yn ôl Rosenshine (2012), mae cwestiynau a thrafodaethau disgyblion yn hanfodol i'r ddarpariaeth o'r ymarfer angenrheidiol sy'n arwain at ddysgu effeithiol.

Wrth adfyfrio ar y wers, teimlaf fy mod wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus gan ystyried cynnydd fy nghyd-fyfyrwyr tuag at gyflawni'r nod. Er hyn, rwy'n credu y gallaf fabwysiadu ffyrdd mwy effeithiol o gynnwys pob disgybl wrth ateb cwestiynau a chyfrannu yn wersi'r dyfodol. Ymhlith yr enghreifftiau, gall disgyblion:

- Dweud yr ateb wrth gyfoed
- Ysgrifennu'r ateb ar fwrdd gwyn ac yna ei ddal i fyny
- Codi eu dwylo os ydyn nhw'n gwybod yr ateb
- Codi eu dwylo os ydyn nhw'n cytuno â'r ateb mae rhywun arall wedi'i roi.

Ar draws yr ystafell ddosbarth, pwrpas yr holl weithdrefnau hyn byddai darparu cyfranogiad gweithredol y disgyblion tuag at eu dysgu gan hefyd caniatáu i mi, fel yr athrawes, weld faint ohonynt sydd yn gywir ac yn hyderus. Byddai'r disgyblion yn defnyddio'u holl sgiliau ieithyddol megis gwrandio, darllen, siarad ac ysgrifennu wrth gymryd rhan yn weithdrefnau o'r fath hyn.

Mewn trafodaeth gyda fy nhwitor personol ar ddiwedd y cyfnod addysgu hwn, dywed ei fod yn amlwg fy mod yn wirioneddol gwrandio ar ddysgwyr, gan annog nhw wrth iddynt ateb a chyfrannu at y wers yn ogystal ag ehangu ar eu syniadau a safbwyntiau fel modd o sicrhau dealltwriaeth gadarn ac ystyrlon. Teimlaf fy mod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu ar lafar yn hyderus ac yn estynedig. Rwy'n gallu rhyngweithio ac arwain trafodaethau yn gyson ac yn gywir, gan hunan gywiro a chywiro dysgwyr lle bo angen. Yn

ystod y wers, roeddwn yn darllen o'r sgrin ryngweithiol a'r daflen waith yn rhwydd ac yn eglur, gan ehangu ar yr hyn ddarllenaf wrth siarad gyda'r dysgwyr er mwyn cyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol. Defnyddiais y *Rhaglen Astudio Cymraeg* ar gyfer lywio'r wers wrth ddarllen am y wybodaeth berthnasol i'w echdynnu a'i chynnwys yn fy nghynllun gwers. O ran y cynllun wers a'r adnoddau gwreiddiol sydd wedi'u hatodi, ceir tystiolaeth fy mod yn gallu cyflwyno gwybodaeth gan ysgrifennu'n ymestynnol ac yn gywir gyda chymorth cymorthfeydd electronig.

Credaf fod gen i ddealltwriaeth gadarn o strategaethau addysgu a dysgu iaith ac rwy'n gallu defnyddio amrediad o'r strategaethau addysgu a dysgu iaith hyn yn effeithiol o ganlyniad i fy ngwaith cynllunio tu fewn i'm bwnc arbenigol: Ffrangeg a Sbaeneg. Ymddangosa llythrennedd wrth wraidd y MDaPh leithoedd, llythrennedd a Chyfathrebu gan fod y sgil yma yn cael eu haddysgu'n benodol. Caniatâ hwn felly i mi gyfrannu at ddatblygiad y sgil mewn ffordd hynod 'naturiol a dilys yn hytrach nag fel elfennau ychwanegol' (Donaldson, 2015, tud. 6) trwy gydol fy Mhrofiad Addysgu Proffesiynol cyntaf mewn Ysgol Uwchradd Gymraeg yn ardal wledig De Cymru. Mae Atodiad 3 yn enghraifft o dasg gramadeg a gynlluniwyd ar gyfer gwers Ffrangeg blwyddyn 9 gyda'r bwriad o adeiladu ar sgiliau llythrennedd y dosbarth o'r rheolau sy'n rheoli'r cydberthnasau rhwng geiriau mewn iaith. Bwriad y dasg benodol hon oedd datblygu ymwybyddiaeth iaith Ffrangeg y disgyblion fel eu bod yn gallu categoreiddio'r geiriau amrywiol (gweler Atodiad 3) yn ôl eu gweithrediad er mwyn gwell deall cydberthynas yr eirfa a'u lleoliadau mewn brawddegau. Addysgir gramadeg mewn perthynas ag ysgrifennu gan amlaf, oherwydd disgwylir cywirdeb gan ddarllenwyr o'r ffurf ysgrifenedig safonol (Llywodraeth Cymru, 2013). Wrth adfyfrio ar y dasg hon, nid oeddwn wedi ystyried pa mor heriol byddai nifer unigolion yn gweld y dasg am nad oedd ganddynt y ddealltwriaeth o ramadeg yn y Gymraeg i ganiatáu iddynt allu gwneud hwn mewn iaith dramor. Mae Hattie (2012) yn nodi pwysigrwydd athrawon yn adnabod eu dysgwyr a'r wybodaeth sydd ganddynt wrth baratoi gwersi gan fod angen dealltwriaeth drylwyr o'r hyn maent yn gallu'u wneud. O ganlyniad i hyn, sylweddolaf y byddai cynllunio wers ar ymwybyddiaeth iaith er mwyn canolbwyntio ar elfennau hanfodol gramadeg e.e. beth yn union yw berf, berfenw, arddodiad, adferf a.y.b. wedi bod yn fuddiol iawn i ddatblygu dealltwriaeth y dosbarth a galluogi'r disgyblion ysgrifennu yn ramadegol cywir fel yr amlinellir yn y FfLIRh. Yn bendant rhywbeth i ystyried wrth symud ymlaen.

Hefyd, fe gynlluniais y meini prawf llwyddiant yn Atodiad 4 ar gyfer fy nosbarthiadau Ffrangeg blwyddyn 7 wrth i ni astudio'r thema 'Au Collège' sef bywyd ysgol. Amcan y wers hon oedd i'r disgyblion defnyddio geirfa pynciau ysgol, mynegi a chyfiawnhau barn er mwyn ysgrifennu darn unigol yn sôn am ba bynciau ysgol maent yn hoffi/ddim yn hoffi, a'r

rhesymau dros hyn. Penderfynais greu'r pyramid adeiladol isod er mwyn amlygu i'r disgyblion ba wybodaeth i gynnwys a sut i strwythuro'u brawddegau. Fel y gellir gweld o'r enghraifft o waith disgybl, a hefyd adborth fy mentor (gweler Atodiad 4 am y ddau), maent yn awgrymu bod y dull yma wedi bod yn llwyddiannus yn y ffordd yr oedd yn cefnogi'r disgyblion i ffurfio brawddegau estynedig yn hyderus a chywir wrth weithio eu ffordd i fyny pob cam o'r pyramid. Yn ogystal â hyn, yr oeddwn wedi llunio'r pyramid i wahaniaethu gan fy mod yn addysgu dosbarthiadau gallu cymysg. Mae'r goleuadau traffig yn cynnig canlyniadau dysgu amrywiol ar sail y cynnwys e.e. brawddegau syml neu fwy cymhleth. Caniatâ hwn i'r disgyblion dewis y cynnwys (geirfa a strwythur) yr oeddent y mwyaf hapus a chyfforddus i ddefnyddio, gyda nifer yn herio'u hunain i gyrraedd y top.

Yr wyf hefyd wedi cynnwys enghraifft o gywiro iaith disgybl ym mlwyddyn 8 (gweler Atodiad 5) gan ei fod yn camddefnyddio 'i gyd' wrth gyfieithu o'r Ffrangeg i'r Gymraeg. Yn ogystal â hyn, gweler Atodiad 6 fel enghraifft o'r fath adborth ysgrifenedig yr wyf yn cyflwyno i fy nisgyblion yn dilyn tasgau a gwnaed yn eu llyfrau gan arddangos gwybodaeth o gywirdeb a'r awydd i drosglwyddo hyn i'r dysgwyr.

Yn olaf, mae sesiynau Cymraeg y Brifysgol wedi darparu cyfle gwych i ymarfer agweddau hanfodol o'r iaith Cymraeg gan hyrwyddo ymdeimlad o ddysgu fel tîm. Gan ystyried ein hawydd i addysgu mewn ysgolion Cymraeg, bwriad y sesiynau yma oedd cryfhau ein sgiliau ieithyddol, codi hyder, cyfoethogi'r hyn a gallwn gynnig i'r plant a sicrhau safon ieithyddol uchel. Mynychais bob sesiwn iaith gyda ffocws ar: rhannau ymadrodd (Atodiad 7), cenedl enwau (Atodiad 8), cwestiynau (Atodiad 9), arddodiaid (Atodiad 10) a brawddegau negyddol (Atodiad 11). Teimlaf fod y sesiynau yn hanfodol i'w mynychu gan ystyried yr hyn y mae Donaldson (2015) yn argymhell bod ein holl blant a phobl ifanc yn parhau i ddysgu'r Gymraeg hyd at 16 oed, gyda mwy o ffocws ar allu plant a phobl ifanc i gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg mewn cyd-destunau pob dydd, gan gynnwys y gweithle. Dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg weithredu fel canolbwynt ar gyfer y Gymraeg, gan ddarparu cymorth i athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Deallaf felly fy nghyfrifoldeb i fod yn fodel rôl ieithyddol.

Atodiad 1

Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Carys Jones	Dosbarth:	Fframwaith Cymhwysedd Iaith (yn y Brifysgol)
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	Dyddiad:	25/02/2020
Ffocws Gwers:	Nodweddion Arddull		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Llafaredd - cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chyd-destunau, <i>e.e. adrodd yn ôl</i> - siarad a gwrando’n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddosbarth - ymdrin â gweithgareddau lle y mae geiriau, eu hystyr, y rheswm dros eu dewis, a’u heffaith, yn ganolog - defnyddio terminoleg sy’n addas i’r sefyllfa neu’r diben Darllen - datblygu’r iaith a’r derminoleg briodol i allu trafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, <i>e.e. mewn testunau ysgrifenedig megis ymson</i> Ysgrifennu - ar gyfer disgrifio - gan ddefnyddio amrywiaeth ac ystod o destunau di-dor a phytiog mewn amryw o ffurfiau, <i>e.e. ymsonau</i> - ysgrifennu barddonol sy’n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, <i>e.e. nodweddion arddull</i> - defnyddio ystod eang o ysgogiadau a symbyliadau <i>e.e. profiadau a fideo</i>		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Siarad: Cydweithio a thrafod - nodi bod amrywiaeth o ddewisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp Ysgrifennu - ysgrifennu brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth yn ramadegol gywir - ysgrifennu’n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun - defnyddio’r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i’r ystyr fod yn glir, e.e. yr hanner colon, y colon a chromfachau - defnyddio ystod eang o dermau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc - defnyddio nodweddion priodol yn effeithiol - gwella gwaith ysgrifenedig: uwch lefelu ymson		
Targedau Personol (cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):
Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol: 1. Ysgrifennu ymson gan ganolbwyntio ar y defnydd o nodweddion arddull.

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
1. Disgyblion i dangos eu dealltwriaeth o nodweddion arddull o'r cychwyn oll wrth gydweddu'r diffiniadau gyda'u hystyr. 2. Dod o hyd i 6 enghraifft o'r nodweddion arddull ar waith yn y darn. 3. Defnyddio'r 6 nodwedd arddull hyn, ag unrhyw rhai arall, er mwyn ysgrifennu ymson. Rhaid cofio: ✓ Nodi llyf meddwl yn y foment honno. ✓ Ysgrifennu yn y presennol (person cyntaf). ✓ Defnyddio berfau'r presennol. ✓ Disgrifio teimladau. ✓ Defnyddio'r synhwyrâu ac ebychiadau i greu awyrgylch. ✓ Atalnodi'n addas.	1. Paru'r diffiniad/ystyr (cyffelybiaeth, cymhariaeth, trosiad, personoli, rhestru, ansoddair). 2. Anodi gan ddefnyddio'r diffiniad cywir o amgylch yr enghraifft yn y darn. 3. Dychmygu eu bod nhw yng nghanol foment penodol (bydd fideo yn cael ei ddangos - gwelir isod am fwy o fanylder) ac ysgrifennu ymson unigol i'w bortreadu gan sicrhau maent yn cwrdd â'r meini prawf llwyddiant.

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Croesawi'r disgyblion i'r ystafell ddosbarth gan ddosbarthu sticeri iddynt nodi eu henwau. Bydd y PPT ar y sgrin ac mi fyddai'n cyflwyno nod y wers i'r dosbarth. Tasg gychwynnol – Bydd cyfarwyddiadau ar y sgrin, ond byddaf yn atgyfnerthu hyn gan roi esboniadau ar lafar hefyd er mwyn sicrhau bod pawb yn deall gofynion y dasg. Dosbarthu'r taflennu ac esbonio bod gan bawb 2 munud.	Disgyblion i gymryd eu seddu, trefnu eu sticer a thawelu yn barod i ddysgu. Tasg gychwynnol – Disgyblion i weithio'n annibynnol ar y dasg hon gan ystyried y diffiniadau a'u hystyr: paru nhw.	PPT ar y bwrdd rhyngweithiol Taflen gwaith y dasg gychwynnol (un i bob un)
Addysgu a Dysgu Craidd	Tynnu sylw'r disgyblion yn ôl yn dilyn y dasg gychwynnol er mwyn esbonio'r dasg nesaf. Tasg 1 – Ymson. Eto, bydd cyfarwyddiadau ar y sgrin ond ar gyfer y dasg hon byddaf yn esbonio ar lafar unwaith eto gan nodi bod gan y disgyblion 2 munud i gwblhau'r dasg yma.	Tasg 1 – Disgyblion i anodi'r darn wrth iddynt ddod o hyd i enghreifftiau o'r nodweddion arddull yn y darn a ddarparwyd iddynt ar lif meddwl unigolyn yn ystod gêm rygbi Cymru.	PPT ar y bwrdd rhyngweithiol

	Cwestiwn: Pwy wylodd gêm Cymru yn erbyn Ffrainc dros y penwythnos? (arweiniad mewn i dasg 2). Tasg 2 – Fel rhan o’r dasg yma, byddaf yn arddangos clip fideo o anthem genedlaethol Cymru yn cael ei ganu ar ddechrau gêm Cymru yn erbyn yr Eidal yn Stadiwm Y Principality. Bydd cyfarwyddiadau’r dasg ar y sgrin ond cyn i’r disgyblion fynd ati i ysgrifennu ymson eu hun ar y foment honno, byddaf yn gofyn y cwestiwn: Beth sydd angen cofio wrth ysgrifennu ymson? Bydd hwn yn hybu trafodaeth gyflym ar feini prawf llwyddiant ysgrifennu ymson, ac yna byddaf yn arddangos y meini prawf ar y sgrin. Esbonio bod gan y disgyblion 10 munud i’r dasg hon.	Tasg 2 – Disgyblion i ddefnyddio’u dychymyg er mwyn llwyddo yn y dasg o ysgrifennu ymson i bortreadu’r foment yn y clip fideo. Bydd angen iddynt sicrhau defnydd o nodweddion arddull a dilyn y meini prawf llwyddiant er mwyn cyflawni nod y dasg, a hefyd y wers.	YouTube
Sesiwn Gloi	Tasg gloi – Agor ail PPT sydd yn cynnwys 6 bocs gwahanol ar y sleid gyntaf. Gofyn i unigolion amrywiol dewis bocs un ar ôl y llall. Bydd y bocs rwyf yn clicio yn trosglwyddo i sleid wahanol gyda chwestiwn penodol ar gynnwys y wers heddiw.	Tasg gloi – Disgyblion i ymateb i’r 6 cwestiwn gwahanol sydd yn ymddangos ar y PPT wrth ysgrifennu eu hatebion ar bapur. Byddaf yn casglu eu hymatebion fel dull o asesu dealltwriaeth y dosbarth ar gynnwys y wers.	PPT ar y bwrdd rhyngweithiol

Atodiad 2

Tasg gychwynnol

Rhestru

Gair sy'n disgrifio

Trosiad

Cymharu rhywbeth **gyda** rhywbeth arall

Personoli

Techneg o nodi pethau un ar ol y llall

Cyffelybiaeth

Dweud bod rhywbeth **yn** rhywbeth arall

Cymhariaeth

Rhoi nodweddion person i wrthrych

Ansoddair

Dweud bod rhywbeth **fel** rhywbeth arall

HER!

Allwch chi feddwl am unrhyw nodweddion arddull arall?
Nodwch nhw fan hyn.



Ymson



Mae'r dorf o bobl yn gymysg o goch a glas. Gwelaf bawb yn gwenu, chwerthin, gweiddi a dathlu. Mae pob pâr o lygaid yn syllu fel tylluan. Syllu ar y cae lle dawnsia'r bêl o law i law. Clywaf galonnau pawb yn curo mor uchel â drwm wrth i'r cawr o ddyn deifio o dan y pyst. CYMRU AM BYTH!



Atodiad 3


Tasg: Categoriwch y geiriau yn y tabl isod

<u>génial</u>	<u>mes amis</u>	à la <u>campagne</u>	<u>aller</u>	<u>en ville</u>	<u>fantastique</u>	la <u>pêche</u>
<u>en France</u>	à la <u>plage</u>	<u>manger</u>	<u>grand</u>	le <u>musée</u>	au Portugal	au volley
<u>nul</u>	<u>visiter</u>	<u>en juin</u>	à Londres	<u>en Espagne</u>	<u>faire</u>	à la <u>montagne</u>
la piscine	<u>en train</u>	<u>jouer</u>	<u>chouette</u>	<u>passer</u>	<u>pendant</u>	<u>l'année prochaine</u>
<u>une pizza</u>	<u>en bateau</u>	un <u>hôtel</u>	au <u>bord</u> la <u>mer</u>	au Canada	<u>puis</u>	<u>petit</u>
aux <u>Etats Unis</u>	la <u>planche</u> à voile	<u>pas mal</u>	un <u>château</u>	les <u>vacances</u>	<u>après</u>	
au <u>bord</u> de la <u>mer</u>	au restaurant	<u>ennuyeux</u>	<u>en avion</u>	<u>tous les jours</u>	à Paris	
<u>voir</u>	<u>ma famille</u>	<u>en été</u>	à Noël	<u>une caravane</u>	<u>rester</u>	<u>en voiture</u> la <u>ville</u>

Les pays Les villes Les endroits (lleoliad)	Les infinitifs (berfenwau)	Les noms (enwau/gweithgareddau)	Les adjectifs (ansoddeiriau)	Les adverbs (mynegiadau amser)

Atodiad 4

Le pyramide d'opinion!



Pyramide d'opinion - ffurfiad sylw i ddarparu 7 broses o ffurfiad. Brawddegau estynedig ac i osod disgrifiadau uchel (+ meini prael llwyddiant i darg). Swmhaniaethu gan gaulyniad, heb fod llym yn amlwg i'r disgrifiad.

Atodiad 5

ymdrech wych!!
Fantastique, ~~fy~~

TASG 2: Quel est le bon ordre?
TASG 3: Traduisez les phrases au gallois dans vos livres

- suis au je cinéma allé
Je suis allé au cinéma - Es i'r sinema ✓
- ma resté je famille la suis maison à avec
Je suis resté à la maison avec ma famille - Arhosais gartref gyda fy rheulu ✓
- radio de j'ai écouté la
J'ai écouté de la radio - Grandawrais ar y radio ✓
- les j'ai films regardé
J'ai regardé les films - Gwyliais ffilmiau ✓
- j'ai devoirs fait tous mes
J'ai fait tous mes devoirs - Gwnes i (gyd o) fy ngwaith cartref. ✓
- un ma lu dans livre j'ai chambre
J'ai lu un livre dans ma chambre - Darllenais lyfr yn fy ystafell lwyly ✓
- mes j'ai chiens avec marché
J'ai marché avec mes chiens - Cerddais gyda fy nghŵn ✓
- joué parc j'ai au foot au
J'ai joué au foot au parc - Chwaraeais pêl-droed yn y parc ✓
- amis visité mes j'ai
J'ai visité mes amis - Ymwelais â fy ffrendiau ✓
- chocolat j'ai de beaucoup mangé et bu coca un j'ai
J'ai bu de beaucoup un coca et j'ai mangé chocolat - Yfais hawer o côc a bwytais siocled ✓
hawer o

En classe Mardi, vingt-six novembre
Le week-end dernier

Fantastique Mal Formidable
Fatigant Super Marrant
Facile nul
pénible C'était... intéressant
Ce n'était pas... Moche
passionnant délicieux amusant
génial ennuyeux
chouette affreux

Il faisait mauvais Il faisait ruageux
Il y avait du brouillard Il faisait beau
Il pleuvait
Il y avait du soleil Quel temps faisait-il?
Il faisait chaud
Il y avait des averse
Il faisait froid
Il y avait du vent
Il y avait de l'orage Il gèleait
Il neigeait Taclos iawn!

Atodiad 6

J'adore les théâtre et la géographie
parce que ce sont amusants.

	ce sont	le
parce que	la	
et		amusants

Le pyramide d'opinion!



- 1) J'adore le sport et l'anglais parce que ce sont amusants. ✓
- 2) Je n'aime pas du tout les mathématiques car ce sont difficiles. ✓
- 3) Je déteste le dessin parce que ce sont difficile. ✓
- 4) J'aime le français et la musique et le gallois car ce sont biens. ✓

c'est = unigol (mae yn)

ce sont = lluosog (mae nhw yn)

~~mae~~, mae dy waith yn nhrefn taelus a chywir - très bien! Rydych chi'n ymdrechus i dilyn fy nghyfanyddiadau ac yn dangos dealltwriaeth da iawn o'r iaith.

ef Jones - 01/12

Atodiad 7

Termau Cymraeg – Rhannau ymadrodd

Dwi'n Siarad Cymraeg



Termau gramatigol sydd yn helpu ni deall fel mae geiriau yn ymdwyn.

Term	Deall?	Enghraifft
Rhannau ymadrodd	✓	* y rhestr yma
Enw unigol	✓	plantyn
Enw lluosog	✓	plant
Enw gwrywaidd	✓	ci / lenigol
Enw benywaidd	✓	llaw / dref
Enw priod prif wymer	✓	Casdydd / ygor Presell
Enw torfol argyfaed o'r awyrllo / porth	✓	tyrfa / hail
Enw diriaethol mae'n gyswllt	✓	cadair / wal
Enw haniaethol mae'n gyswllt	✓	hyspwydd ee beimladau
Rhagenw	✓	3. f / t / ff / h / ni / nhw / chi
Ansoddair	✓	neu / os llw
Cysylltair	✓	ac / neu / ond
Arddodiad darog permyriad	✓	am ...
Berf	✓	canais (yn awel) - adferf
Gwrthrych subject	✓	beth y ddisial at y bennod
Goddrych subject	✓	gwelodd y gath dlyn
Berfenw VERB	✓	siarad / rhedeg
Adferf 'LY'	✓	yn gyflym
defunite article = y Farnod	✓	y / yr / i'r

nen oriel amrygl wedi nodd nedd (yn dda yn)

TREIGLO

defunite article = y Farnod

Eglo : murwl, uggad, carpan, tress.

Atodiad 8

24/4

Cymraeg

TREIGLO

Enw gwrywaidd : DIM treiglo ar ol 'y'

Ansoddair DIM yn treiglo

- y bachgen du Rhifau Mr + gair : dau + TM
- y coleg mawr tri + TLL
- y ddrws melyn pedwar + X

Enw benywaidd : Treiglad ~~MEMOR~~ ar ol 'y'

Ansoddair yn treiglo'n ~~MEMOR~~

- y ferdn glyfar Rhifau Mrs + gair : dny + TM
- y dddeir fawr tair + X
- y gorth ddu pedwar + X

and DIM * 'll/rh' → y maglen / y llawl

Ben new CWR ?!

Terfyniadau : -asth - es

BEN

-fa - ell

-en - eb

-aith - eg

-as

CWR

-awl - wr

-eint - eidd

-hollid - yn

-nydd - iol

-edur - deb

iaith leithoedd modern Dramor

- Cyfieithiad EG**
 - y cyfieithiad
 - y cyfieithiad anafel
 - dau cyfieithiad
- iaith EB**
 - yr iaith
 - yr iaith bysug
 - dny iaith
- enw EB**
 - y ne
 - y ne dderfnyddiol
 - dny ne

Atodiad 9

Gymraeg 5/1/90

Cwestiynau

- Oes / Nac oes
- Chwyt / Na chwt
- Ie / Nage
- Be / Naddo
- Gwyn / Na gwyn
- Ydy / Nac ydy

Oes > amendant
Ydy > pendant

Sauwl a Faint?

Sauwl gylag neu UNIGOL
Faint gylag neu UNIGOL

Sem
sic
dwm
dyf
sut
pwy
pa

? AGORED

- Sut + Bw > treiglod meddal
- Beth + dwf > Pa enw
- Faint + dwf > Pa + enw + beth
- Pwy + dwf > Pwy + enw

Chwilio'r gwallau 1

Cwestiynau 1

- Faint + o + treiglod meddal + enw lluosog
- Sawl + enw unigol

Rhowch 'Sawl' neu 'Faint o' yn y bylchau. Treiglwch os oes angen.

- Sawl plentyn newydd fydd yn dechrau yn yr ysgol yfory?
- Faint chwaraewr sydd wedi eu gwahardd erbyn hyn?
- Faint ffensi sy ganddyn nhw bob dydd?
- Sawl daargryn sy wedi digwydd eleni?
- Faint Ffiliwr oedd yn ymladd yn yr ail ryfel byd?
- Sawl triongli glas oedd yn y patrwm?
- Faint deisennau wnaiff hi heno?
- Sawl tudalen sy rhaid i ni ddarllen heno?
- Faint drefl glan y môr fyddi d'n eu trafod yn y project?
- Faint gynoddgyblion welaist ti yn yr aduniad?

Chwilio'r gwallau 1

Cwestiynau 2

- Mae llawer o eniau yn y Gymraeg am 'yes' a 'no', ond rhaid dewis y gair cywir bob tro.

Rhowch air cyntaf yr ateb cadarnhaol a negyddol yn y grid isod.

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
1. Oes gwers hanes heddiw?	Oes	Nac oes
2. Aethon nhw i'r gig?	Do	Naddo
3. Fydd hi'n canu ar ei phen ei hun?	Bydd	Nac fydd
4. Oedd rhywun yn hwyi y bore ma?	Oedd	Nac oedd
5. Ym Mangor mae o'n byw nian?	Ie	Nage
6. Wyt ti'n cytaddu eleni?	Ydy	Nac ydy
7. Fyddai hi cael ffrae os byddai hi'n hwyi?	Byddai	Nac fyddai
8. Yr athrawes gell yw'r pennafnewydd?	Ie	Nac
9. Gawn ni fynd i'r sioc gerdd yr wythnos nesaf?	Chwyt	Nac chwyt
10. Ydy'r car newydd yn cyrraedd heno?	Ydy	Nac ydy

Chwilio'r gwallau 1

Cwestiynau 3

- Mae treiglod yn dilyn llawer o eniau cwestiwn e.e. Pa lyfrau? Beth gnaeth o?

Mae gwallau treiglo mewn pump o'r cwestiynau isod. Gwnewch restr o'r cwestiynau sy'n gwrw. Yna, cywirwch y pum cwestiwn sy'n anghywir.

- Beth fyddych chi'n adelladu ar y ts?
- Pwy ddarh à flon symudol i'r ysgol heddiw?
- Pa fwyd maen nhw'n ei werthu yn y siop newydd?
- Pa gystiolaeth oedd gan yr heddiw? Pa awstiaeth?
- Pwy geolodd y llinch yn torsi i mewn i'r tŷ? Pwy welaidd?
- Sut tŷu sy wedi symud i'r hen dy? Sut adellu?
- Sut tŷuon nhw i Lundain?
- Pwy weloch chi'r fflm newydd? Pwy gwlach?
- Faint dywedodd hi wrthoch chi am y ddarnwain? Faint ddyddedd?
- Pun o'r dynion helpodd?

Chwilio'r gwallau 1

Cwestiynau 4

- Rydyn ni'n defnyddio 'sydd' gyda:
 - Pwy + 'ni/yn/wedi + berfenw (Pwy sy'n talu?)
 - Beth + 'ni/yn' + ansoddair (Beth sy'n fawn?)
 - Faint + arddodiad (Faint sydd yn yr ysgol?)
 - Pa + enw + yma/ynaf/yno (Pa fflm sy yno?)
- Rydyn ni'n defnyddio 'yw/ydy' gyda:
 - Pwy + enw (neu yfyr/r + enw)
 - Beth + rhagennw
 - Faint + hwn/hon/hyn/hanna/honna/y rheina
 - Pa + enw?

Rhowch yw/ydy neu sydd/sy yn y bylchau.

- Wyt ti'n gwybod pwy sydd wedi cael y swydd?
- Pa athrawes sydd yn ysgol?
- Beth sydd ei henw hi?
- Faint o siopau sydd yn y ganolfan siopa newydd?
- Pwy sydd yn darllen y newyddion bob nos Lun?
- Pa walth cartref sydd hennaf?
- Pwy sydd wedi gweld y rhaglen realiti newydd sy ar y teledu?
- Beth sydd yn dal yn dyfyni ac yn fflewo?
- Pa fflm sydd yno'r wythnos hon?
- Faint sydd pris y gêm newydd ar gyfer y cyfrifiadu?

Chwilio'r gwallau 1

Cwestiynau 5

Ydych Chi'n Cofio?

Mae deg gwall yn y sgwrs sy'n dilyn.

Lowri: Wyt ti eisiau mynd i'r disgo yn y dref nos yfory?

Jayne: Ie, syniad da. Ydy?

Lowri: Pa ddiad wyt ti'n gwisgo? A ddiad.

Jayne: Dwi i ddim wedi penderfynu eto. Pwy sy'n band fydd yn y disgog? Pwy yn y band?

Lowri: Yr Adar Glas. Mae'r bechgyn yn fy nosbarth i.

Jayne: Dwi i ddim wedi clywed amdany'n nhw. Saei bechgyn sy yn y band? Faint o bechgyn sy'n y band?

Lowri: Pedwar. Tri offerynnwr ac un canwr, nwy'n meddal.

Jayne: Wyt ti wedi gweld y grŵp o'r blaen?

Lowri: Ydy. Roeddwn nhw yn nigo'r Coleg y mis diwetha. Ydy?

Jayne: Pwy caneuon chwaraeon nhw? Pa ganeuon?

Lowri: Dwi i ddim yn cofio - doeddwn i ddim wedi eu clywed o'r blaen.

Jayne: Pwy talodd am y tocy'n i ti fynd i ddisgo'r Coleg? Pwy welaidd?

Lowri: Mam. Ces i'r tocy'n fel anheg pen-blwydd. Pryd ydy dy ben-blwydd di?

Jayne: Mis Awst.


Lowri: Beth ddyddiad? Pa dyddiad?

Jayne: Awst tri deg un.

Lowri: Diwmod olaf y mis?

Jayne: Ydy i.

Atodiad 10



Atodiad 11

